

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Swyddfa'r UE

## Materion Ewropeaidd

Rhifyn 29 – Gwanwyn/haf 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

# Cyflwyniad



**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Llywydd y Cynulliad**

Mae’n bleser gennyf gyflwyno rhifyn 29 o'n cylchlythyr, Materion Ewropeaidd, sy’n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Mae'n briodol ein bod yn cyhoeddi'r rhifyn hwn ar Ddiwrnod Ewrop, o gofio y caiff etholiadau Senedd Ewrop eu cynnal yn ddiweddarach y mis hwn. At ei gilydd, caiff 751 o Aelodau eu hethol i Senedd Ewrop o'r 28 o aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y pedwar a fydd yn cynrychioli Cymru. Gwn fy mod yn siarad ar ran holl Aelodau'r Cynulliad pan ddywedaf fy mod yn gobeithio y bydd nifer dda'n pleidleisio yn yr etholiadau hyn.

Mae Cytuniad Lisbon wedi ychwanegu at statws Senedd Ewrop a'i phwerau ffurfiol. Mae ei rôl fel cyd-ddeddfwr yn y rhan fwyaf o feysydd polisi'r UE, gan gynnwys cymwyseddau datganoledig fel amaethyddiaeth a'r amgylchedd, yn golygu bod ei gwaith hyd yn oed yn fwy perthnasol i'r Cynulliad.

Rydym wedi canolbwyntio'r arbennig ar ddatblygu deialog â deddfwrfeydd eraill yn Senedd Ewrop, drwy waith ein pwyllgorau, gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yng Nghymru o rai o'r coflenni mwyaf allweddol er mwyn i Gymru fedru cyfrannu at y broses ddeddfu ym Mrwsel.

Mae'r Aelodau o Gymru yn rhan bwysig iawn o'r berthynas hon ac edrychaf ymlaen at eu croesawu i'r Cynulliad ar ôl yr etholiadau, i drafod sut y gall y gwaith da hwn barhau, er mwyn hyrwyddo buddiannau Cymru yn y ffordd fwyaf effeithiol, a chryfhau'n cysylltiadau â Senedd Ewrop.

Un pwnc trafod, yn ddi-os, fydd adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a gyhoeddwyd ar 6 Mawrth, yn dilyn ei ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE. Caiff ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mehefin.

Bydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn cyflwyno adroddiad ar ei ymchwiliadau i Gyfleoedd Cyllido'r UE 2014-2020 ac i Fasnach a Buddsoddiad, a chafodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd hefyd nifer o sesiynau'n ymwneud â'r UE o safbwynt amaethyddiaeth, yr amgylchedd a materion morol, gan gynnwys sesiwn ym mis Mawrth gyda Gwilym Jones, Aelod o Gabinet Comisiynydd Amaethyddiaeth yr UE. Mae rhagor o fanylion am waith holl bwyllgorau'r Cynulliad yn ymwneud â'r UE ar y tudalennau nesaf.

Ar 15 Mai, byddwn yn croesawu Llysgennad Gwlad Groeg i'r DU, Ei Ardderchogrwydd Mr Konstantinos Bikas, i gyfarfod o Gadeiryddion y Pwyllgorau i drafod Llywyddiaeth Gwlad Groeg o'r UE. Yn ddiweddarach y noson honno bydd yn bleser gennyf gynnal derbyniad yn

y Senedd, ar y cyd â Llysegennad Gwlad Groeg, a Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru i nodi Diwrnod Ewrop.

Rydym wedi croesawu nifer o westeion nodedig eraill dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf, gan gynnwys Llysgenhadon Gwlad Pwyl a Belarws i'r DU, Gweinidog Gwladol Iwerddon dros Faterion y Gaeltacht a Llywydd Senedd Grenada.

Bydd hyn yn parhau ar 27-29 Mai pan fydd Cangen y Cynulliad o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cynnal Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIMR) a hynny am y tro cyntaf ers 2002. Thema'r Gynhadledd fydd "**Mynediad Teg i Ddemocratiaeth**" a fydd yn cynnwys sesiynau ar Annog Rhagor o Ferched i Gymryd rhan mewn Bywyd Cyhoeddus a Democratiaeth; Dwyieithrwydd a Rôl Ieithoedd Swyddogol yn y Senedd ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn y Broses Ddemocrataidd.

# Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

- **Ymchwiliad i Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)**: Mae'r ymchwiliad hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers 2011. Daeth y trafodaethau ar y cynigion deddfwriaethol ar gyfer y PAC i ben a diddymwyd y grŵp gorchwyl a gorffen fis Rhagfyr 2013. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ddiweddaru gyda Gwilym Jones, Aelod o Gabinet Amaethyddiaeth Cioloș yn yr UE ar 13 Mawrth.
- **Polisi morol a physgodfeydd**: Bu'r Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol mewn sesiwn yn dilyn yr ymchwiliad a hynny ar 6 Chwefror. Hefyd ym mis Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad i'r Cynulliad ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru.
- **Rhywogaethau goresgynnol estron**: Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Ionawr 2014, a chynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Ebrill 2014.
- **Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy**: Lansiwyd yr ymchwiliad hwn, sy'n trafod cydnerthedd a chynaliadwyedd arferion a pholisïau rheoli tir yng Nghymru, yn ystod haf 2013 gydag ymgynghoriad cyhoeddus. Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth yn y Senedd ac mewn mannau eraill yn ystod yr hydref a mis Ionawr, a chynhaliwyd sesiwn dystiolaeth ychwanegol yn Aberystwyth ar 20 Chwefror. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i adrodd ddiwedd mis Chwefror 2014.

## Y Pwyllgor Menter a Busnes

- **Cronfeydd Strwythurol Ewrop**: cynhaliwyd sesiwn ddiweddaru ar 20 Mawrth gyda'r Gweinidog Cyllid, Jane Hutt AC ar baratodau Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni newydd Cronfeydd Strwythurol yr UE.
- **Rheoliadau Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd a Chyfleuster Cysylltu Ewrop**: Dyma un o'r ffrydiau ariannu sydd wedi'u cynwys yng Nghyfleoedd Cyllido'r UE 2014-2020, ac ymdriniwyd â'r materion a godwyd yn y sesiynau tystiolaeth gyda'r Comisiwn Ewropeaidd (21 Tachwedd 2013), Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru (5 Rhagfyr 2013), ac Is-ysgrifennydd Gwladol Trafnidiaeth y DU (16 Ionawr 2014)
- **Ymchwiliad i Gronfa'r UE 2014-2020**: mae'r ymchwiliad newydd hwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i Gymru o dan nifer o raglenni'r UE, gan gynnwys Erasmus+, Creative Europe, Interreg a Chyfleuster Cysylltu Ewrop / Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd. Caglwyd tystiolaeth sylweddol drwy gyfrwng ymgynghoriad ysgrifenedig, digwyddiad allgymorth ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd gyda myfyrwyr a staff, a sesiynau tystiolaeth ffurfiol yn y Cynulliad. Roedd y sesiynau tystiolaeth ffurfiol, a gynhaliwyd fis Mawrth a dechrau mis Ebrill, yn cynnwys: Yr Athro Colin Riordan, Llywydd ac Is-lywydd Prifysgol Caerdydd, a Chadeirydd Uned Ryngwladol y DU sy'n cydlynu Strategaeth newydd y DU ar gyfer Symudedd Allanol; Fiction Factory, Canolfan Celfydddau Chapter, porthladdoedd Cymru, prifysgolion a sefydliadau addysg bellach Cymru, y trydydd sector, y Cyngor Prydeinig a Llywodraeth Cymru. Disgwylir i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad yn ystod tymor yr haf.

– **Ymchwiliad i'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi**: Mae'r ymchwiliad newydd hwn yn ystyried pa mor effeithiol yw strwythurau cymorth Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo allforion gan fusnesau yng Nghymru a hwyluso buddsoddiad uniongyrchol o dramor, gan gynnwys gwaith trawslywodraethol o fewn y DU. Cafodd ei lansio ym mis Rhagfyr gydag ymgynghoriad ysgrifenedig, a chynhaliwyd sesiynau tystiolaeth yn ystod tymor y gwanwyn, gan gynnwys Gweinidogion Llywodraeth Cymru, academyddion a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ymchwiliad yn trafod sut y mae'r cymorth mewnol presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cymharu â'r dull hyd braich a ddefnyddiwyd yn flaenorol drwy Awdurdod Datblygu Cymru a Masnach Cymru Rhyngwladol.

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

– **Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel**: Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth ac ymweliad ym mis Tachwedd 2013, a sesiynau tystiolaeth eraill ym mis Chwefror a mis Mawrth. Un agwedd y mae'r Pwyllgor yn edrych arni yw'r posibilrwydd o gymharu perfformiad yng Nghymru gyda gwledydd eraill yn Ewrop.

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

– **Ymchwiliad i rôl Cymru ym mhroses benderfynu'r UE**: Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 6 Mawrth a bwriedir ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mehefin. Lansiwyd yr ymchwiliad ym mis Mai 2013, ac roedd yn cynnwys dau ymweliad gan y Pwyllgor â Brwsel yn 2013 i gasglu tystiolaeth, ynghyd â sesiynau casglu tystiolaeth ffurfiol yn ystod yr haf a'r hydref yn 2013.

– **Adroddiad Sybsidiaredd**: Bydd yr adroddiad nesaf ar fonitro'r agweddau hynny yng nghynigion deddfwriaethol yr UE sy'n ymwneud â sysbidiaredd yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Medi 2013 a mis Ebrill 2014, a chaiff ei drafod yn  ystod tymor yr haf.

– **Fforwm EC-UK**: Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Dirprwy Lywydd, David Melding AC, yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfodydd rheolaidd Cadeiryddion y pwyllgorau sy'n gyfrifol am faterion Ewropeaidd yn y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig. Fforwm yw hwn i gyfnewid gwybodaeth am waith y gwahanol ddeddfwrfeydd ym maes yr UE. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Mehefin yn Nhŷ'r Cyffredin.

## Y Pwyllgor Cyllid

- **Cyllid Cymru**: mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i Cyllid Cymru, gan gynnwys ystyried ei rôl yn y gwaith o roi cynllun micro-gyllid JEREMIE ar waith. Ariennir y cynllun gan ERDF a Banc Buddsoddi Ewrop, o dan y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yng Nghymru. Cynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth gyntaf ym mis Chwefror a mis Mawrth.

- **Cyllid Addysg Uwch**: lansiwyd yr ymchwiliad hwn yn ystod haf 2013, gan gynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig a sesiynau tystiolaeth yn ystod yr hydref a'r gwanwyn. Mae Addysg Uwch Cymru wedi darparu rhagor o dystiolaeth, gan esbonio sut y mae'n defnyddio ac yn cymryd rhan yn rhaglenni ariannu amrywiol yr EU. Disgwylir y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn ystod tymor yr haf.

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- **Mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru**: Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth yn ystod tymor y gwanwyn. Fel rhan o'r ymchwiliad bydd y Pwyllgor yn trafod arferion gorau yng ngwledydd eraill yr UE o ran cyflwyno technolegau newydd i systemau gofal iechyd.

## Busnes y Cyfarfod Llawn gyda sesiynau penodol ar faterion Ewropeaidd

- 26 Mawrth: Dadl ar y modd y mae'r UE wedi cyfrannu er gwell i Gymru, a'r modd y mae Cymru wedi cyfrannu er gwell i'r UE

- 30 Ebrill: Dadl ar yr UE a’r modd y caiff Cronfeydd Strwythruol eu defnyddio yng Nghymru

*Er gwybodaeth: yn ogystal â'r uchod, mae materion Ewropeaidd yn codi'n aml mewn cwestiynau i Weinidogion.*

## Gweithgareddau allanol Aelodau ar fusnes y Cynulliad

– 7-8 Mawrth: Aeth Mick Antoniw AC i 6ed Uwchgynhadledd Rhanbarthau a Dinasoedd Ewrop a drefnwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau yn Athen.

– 30 Mawrth: 1 Ebrill: Aeth David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, William Powell AC, Joyce Watson AC, Lindsay Whittle AC a Darren Millar AC i 48ain Cyfarfod Llawn y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd yn Nulyn. Thema'r gynhadledd oedd "Diweithdra ymhlith pobl ifanc".

– 2-3 Ebrill: Aeth Mick Antoniw AC i gyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel, a chafodd gyfarfod dwyochrog â Volodymyr Borysovych Groysman, Dirprwy Brif Weinidog Ukrain.

– 7 Ebrill: Aeth Mick Antoniw AC i gyfarfodydd Comisiwn CIVEX ym Mrwsel.

– 8 Ebrill: Aeth Rhodri Glyn Thomas AC i gyfarfod Comisiwn Adnoddau Naturiol Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.

– 28 Ebrill: Siaradodd Mick Antoniw AC yng nghynhadledd yr UE a drefnwyd gan CORLEAP ym Mhwyllgor y Rhanbarthau.

– 24 Mehefin: Gwahoddwyd Rhodri Glyn Thomas AC i siarad am gyllid is-genedlaethol yn y Gynhadledd Lefel Uchel ym Mrwsel, a noddir gan Bwyllgor y Rhanbarthau, OECD a'r Comisiwn Ewropeaidd.

## Ymweliadau rhyngwladol ac ymweliadau gan bwysigion eraill â'r Senedd

– 5 Mawrth: Ymwelodd Llysgennad Belarws, Ei Ardderchogrwydd Mr Sergei Aleinik, â'r Cynulliad a chyfarfu â'r Dirprwy Lywydd, David Melding AC, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.

– 6 Mawrth: Ymwelodd Llysgennad Gwlad Pwyl, Ei Ardderchogrwydd Witold Sobków, â'r Cynulliad a chyfarfu â'r Llywydd, Rosemary Butler AC, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.

– 13 Mawrth: Aeth Gwilym Jones, aelod o Gabinet y Comisiynydd Amaeth yr UE, i gyfarfod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

– 17 Mawrth: Ymwelodd dirprwyaeth o Gynulliad Taleithiol Punjab â'r Cynulliad fel rhan o raglen ehangach a drefnwyd gan Sefydliad Democratiaeth San Steffan.

– 20 Mawrth: Cyfarfu'r Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC â Dr Lawrence Joseph Llywydd Senedd Grenada yn ystod ei ymweliad â Chymru, a drefnwyd gan Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerdydd.

– 7 Ebrill: Cyfarfu'r Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC â Mr Dinny McGinley TD, y Gweinidog Gwladol dros Faterion y Gaeltacht yn ystod ei ymweliad â Chymru.

– 8 Mai: Cyfarfu'r Dirprwy Lywydd, David Melding AC, â'i Ardderchogrwydd Mr Ranjan Mathai, Uwch Gomisiynydd India, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.

– 14 Mai: Bydd y Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC yn cyfarfod â Llysgennad Mecsico, Ei Ardderchogrwydd Mr Diego Gómez-Pickering yn ystod ei ymweliad â Chymru.

– 15 Mai: Bydd Llysgennad Gwlad Groeg, Ei Ardderchogrwydd Mr Konstantinos Bikas yn ymweld â'r Cynulliad i roi tystiolaeth i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad am flaenoriaethau Gwlad Groeg yn ystod ei llywyddiaeth o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.

– 20 Mai: Bydd y Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC, yn cyfarfod â Llefarydd Senedd Canada, yr Anrhydeddus Noël A. Kinsella fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.

– 27 - 30 Mai: Mae Cangen Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn edrych ymlaen at gynnal Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIMR) yn y Senedd ac ystâd y Cynulliad rhwng 27 a 29 Mai 2014. Dyma fydd y tro cyntaf i Gangen Cymru o'r Gymdeithas gynnal y gynhadledd nodedig hon ers 2002.

## Lincs

– **Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

– **Hysbysiad Busnes y Cynulliad**

– **Tudalennau'r pwyllgorau**

– **Tudalennau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**

## I gael rhagor o wybodaeth:


### Cyswllt:

Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (**Gregg.Jones@cymru.gov.uk**)

**Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Cymru**
**6th Floor**
**Rond Point Schuman 11**
**1040 Brussels**
**Belgium**

Ffôn **0032 2 226 66 92**
Ffôn symudol **0044 781 616 4455**
**Dilynwch ni ar Twitter: @SeneddEurope**

**Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel (Llawr 4)**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd, CF99 1NA**

**0044 (0)29 2089 8642/8897**
**TimRhyngwladol@Cymru.gov.uk**


**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.**
Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb ichi. Os nad ydych am dderbyn copïau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, neu os nad ydych wedi derbyn y cylchlythyr hwn yn uniongyrchol ac yr hoffech ychwanegu eich enw at y rhestr dderbyn, cysylltwch â Gregg Jones drwy e-bost.